
hcpc health & care professions council



# Egwyddorion Tiwtoriaeth

## Gan gynnwys gwybodaeth ategol

Helpu gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal drwy gyfnodau pontio yn eu gyrfa

Tachwedd 2023

Rhestr o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon 3

Rhagair 4

Gwybodaeth am yr HCPC 5

Defnyddio Egwyddorion Tiwtoriaeth yr HCPC 6

Egwyddor 1 - Diwylliant sefydliadol a Thiwtoriaeth 8

Egwyddor 2 - Goruchwylio Tiwtoriaeth a'i hansawdd 9

Egwyddor 3 - Grymuso Tiwtoreion 10

Egwyddor 4 - Rôl Tiwtoriaid 11

Egwyddor 5 - Darparu rhaglenni Tiwtoriaeth 12

Gwybodaeth Ategol 13

Tiwtoriaeth i weithwyr cofrestredig sy'n gweithio y tu allan i'r GIG, gan gynnwys ymarferwyr unigol 22

Trefniadau tiwtoriaeth fesul cenedl yn y Deyrnas Unedig 25

Gwybodaeth benodol i broffesiynau 27

# Rhestr o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**Tiwtoriaeth** – cyfnod o gefnogaeth strwythuredig o gefnogaeth a ddarperir i'r rhai sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC ar adegau allweddol pan fydd cyfnodau pontio yn eu gyrfaoedd. Mae hynny'n cynnwys ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf, dychwelyd i'r gwaith wedi cyfnod hir i ffwrdd (gan gynnwys cael eu hailddерbyn i'r gofrestr), gweithio yn y Deyrnas Unedig am y tro cyntaf, ymgymryd â swydd newydd, neu symud i sefydliad newydd, er mwyn rhoi hyder iddynt allu gweithredu fel ymarferydd ymreolus

**Tiwtorai** – unigolyn sy'n derbyn cyfnod o Diwtoriaeth

**Tiwtor** – unigolyn sy'n darparu cymorth un-i-un i rywun sy'n derbyn Tiwtoriaeth

**Rhoddir diffiniadau o'r termau canlynol yng nghyd-destun Tiwtoriaeth.**

**Datblygu Proffesiynol Parhaus neu 'DPP'** - y ffordd y bydd y rhai sy'n gofrestredig gyda'r HCPC yn parhau i ddysgu a datblygu drwy gydol eu gyrfaoedd gan ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth a gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol

**Cymhwysedd** – y galluoedd a'r wybodaeth sy'n galluogi gweithiwr i gyflawni'r tasgau sy'n angenrheidiol yn eu rôl yn ddiogel ac yn effeithiol

**Rhaglenni Sefydlu** – prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau a thimau i gyflwyno rhywun i sefydliad neu rôl newydd

**Aml-broffesiwn** – dysgu sy'n dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd o amryw o wahanol grwpiau proffesiynol

**Proffesiwn-benodol** – dysgu sy'n canolbwyntio ar y wybodaeth a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer proffesiwn penodol a reoleiddir gan yr HCPC

**Rhaglen/ni** – y strwythur ategol sy'n sail i ddarparu Tiwtoriaeth, gan gynnwys cefnogaeth i Diwtoriaid

**Heriau systemau** – ffactorau mewnol ac allanol, megis prinder cyllid neu staff, a allai gael effaith ar gynnal Tiwtoriaeth o ddydd i ddydd.

**Wedi'i theilwra** – cefnogaeth i Diwtoriaeth sydd wedi'i haddasu ar gyfer anghenion unigolyn yn ôl yr angen

**Cyfnod/au Pontio** – newidiadau i sefyllfa cyflogaeth unigolyn cofrestredig lle byddai cefnogaeth o fudd, megis bod yn weithiwr dan hyfforddiant sydd newydd gymhwyso, dychwelyd i'r gwaith wedi absenoldeb rhiant, dod i weithio yn y Deyrnas Unedig o dramor, ymgymryd â swydd newydd, neu symud i sefydliad newydd

**Un-broffesiwn** – cefnogaeth a ddarperir gan yr un proffesiwn ac sy'n canolbwyntio ar faterion penodol i'r proffesiwn

# Rhagair


Bwriedir i'r Egwyddorion Tiwtoriaeth a'r wybodaeth ategol a amlinellir yn y ddogfen hon gynorthwyo'r holl weithwyr proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC[1] i dderbyn Tiwtoriaeth pryd bynnag a ble bynnag y bydd ei hangen arnynt, er mwyn eu cefnogi mewn cyfnodau pontio allweddol yn eu gyrfaoedd, ac i'w helpu i ddarparu gofal diogel, tosturiol sydd o ansawdd uchel.

Rydym yn gwybod bod cyfnodau pontio, megis ymuno â'r gweithlu fel un sydd newydd gofrestru, gweithio yn y Deyrnas Unedig am y tro cyntaf neu ddychwelyd ar ôl cyfnod hir o fod allan o'r gweithlu, yn gallu bod yn heriol i unigolion. Mae rhaglenni Tiwtoriaeth sydd ag adnoddau da ac sydd wedi'u teilwra yn cynnig cefnogaeth ar adegau fel hyn i rai sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC, gan roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt mewn modd sy'n cyfateb i'w hamgylchiadau unigol.

Rydym wedi datblygu'r Egwyddorion hyn ar y cyd, gan weithio gyda'r cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni yn ogystal â gweithio gydag unigolion cofrestredig. Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag awdurdodau addysg a hyfforddiant ym mhedair cenedl y Deyrnas Unedig, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r trefniadau Tiwtoriaeth presennol a'r rhai sy'n datblygu ym mhob cenedl.

Mae'r wybodaeth ategol wedi'i hysgrifennu gyda golwg ar helpu'r unigolion cofrestredig a'r rhai sy'n darparu Tiwtoriaethau i ddefnyddio'r Egwyddorion yn eu gweithleoedd a'u hymarfer.

Rydym yn credu bod gan gefnogaeth Tiwtoriaeth a ddarperir yn dda rôl allweddol i'w chwarae yn cefnogi'r rhai sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC a'r rhai fydd yn cofrestru yn y dyfodol, gan eu helpu i gyflawni eu potensial a bodloni anghenion y rhai y byddant yn eu gwasanaethu yn llawn ac yn hyderus.



**Bernie O'Reilly**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

1. Yr HCPC ydy'r rheoleiddiwr ar gyfer 15 o broffesiynau iechyd a gofal: Therapyddion celf, Gwyddonwyr biofeddygol, Ciropodyddion/podiatryddion, Gwyddonwyr clinigol, Dietegwyr, Dosbarthwyr cymhorthion clyw, Therapyddion galwedigaethol, Ymarferwyr adrannau llawfeddygol, Orthoptyddion, Parafeddygon, Ffisiotherapyddion, Ymarferwyr seicoleg, Prosthetyddion/orthotyddion, Radiograffyddion a Therapyddion iaith a lleferydd.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: https://www.hcpc-uk.org/cy-gb/amdanom-ni/pwy-ydyn-nin-ei-reoleiddio/y-proffesiynau/

# Gwybodaeth am yr HCPC

Rôl statudol yr HCPC ydy diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Rydym yn hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel, gan reoleiddio dros 300,000 o unigolion cofrestredig ar draws 15 proffesiwn gwahanol drwy:

- osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ymarfer gweithwyr proffesiynol;
- cymeradwyo rhaglenni addysg y mae rhaid i weithwyr proffesiynol eu cwblhau er mwyn cofrestru gyda ni;
- cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol, sef yr unigolion cofrestredig, sydd yn bodloni ein safonau;
- Gweithredu os nad ydy gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr yn bodloni ein safonau;
- a gweithredu i atal ymarferwyr nad ydynt yn gofrestredig rhag defnyddio teitlau proffesiynol a ddiogelir.

# Defnyddio Egwyddorion Tiwtoriaeth yr HCPC

Egwyddor 1 — **Diwylliant sefydliadol a Thiwtoriaeth**

Egwyddor 2 — **Goruchwylio Tiwtoriaeth a’i hansawdd**

Egwyddor 3 — **Grymuso Tiwtoreion**

Egwyddor 4 — **Rôl tiwtoriaid**

Egwyddor 5 — **Darparu rhaglenni Tiwtoriaeth**



Datblygwyd yr egwyddorion hyn yn dilyn ymgynghori helaeth gydag unigolion proffesiynol sy’n cael eu rheoleiddio gan yr HCPC a’r cyrff a’r grwpiau proffesiynol sy’n eu cynrychioli.

Maent wedi’u hysgrifennu i gwmpasu’r 15 proffesiwn a’r 33 teitl rydym yn eu rheoleiddio, er mwyn cefnogi’r rhai rydym yn eu rheoleiddio, ym mhob un o’r lleoliadau y maent yn gweithio ynddynt, a chan gydnabod y gwahanol drefniadau cyflogi sydd ar waith ar draws y systemau iechyd a gofal yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

Mae’r pum Egwyddor yn eang o ran eu strwythur, fel bod modd eu defnyddio’n rhwydd ar draws yr ystod o weithleoedd y mae’r rhai sy’n gofrestredig gyda ni yn gweithio ynddynt a’r amrywiaeth o drefniadau cytundebol sydd ganddynt.

Rydym eisiau i’r rhai sy’n gofrestredig gyda ni eu defnyddio er mwyn derbyn rhaglenni Tiwtoriaeth lle byddant ar gael, neu i’w helpu i lywio’r modd y caiff rhai newydd eu creu lle na fyddant ar gael.

Ein bwriad ydy i’r rhai sy’n cynnal neu’n sefydlu rhaglenni Tiwtoriaeth eu defnyddio fel canllaw, er mwyn sicrhau bod y rhaglenni’n bodloni anghenion y rhai sy’n gofrestredig gyda’r HCPC ac yn cefnogi gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu.



Egwyddor 1

# Diwylliant sefydliadol a Thiwtoriaeth

Rhaglen strwythuredig o gefnogaeth a datblygu proffesiynol ydy Tiwtoriaeth, wedi'i chynllunio gyda'r bwriad o wella hyder unigolion cofrestredig mewn cyfnodau o bontio i unrhyw rôl newydd.

Mae Tiwtoriaeth yn cyfrannu at ddiwylliant sefydliadol lle bydd unigolion cofrestredig yn derbyn cefnogaeth i gyflawni eu potensial tra byddant yn darparu gofal a thriniaethau diogel ac effeithiol.

**Dylai Tiwtoriaeth effeithiol:**

a) fod wedi'i hymgorffori yn systemau gweithlu a sefydliadol y sefydliad er mwyn galluogi mynediad ac ymgysylltiad gan Diwtoreion;

b) cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb ac ystyried polisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cenedlaethol a lleol;

c) darparu cyfleoedd i Diwtoreion ddatblygu hyder a chefnogi eu gyrfa yn y dyfodol;

d) rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles Tiwtoreion a Thiwtoriaid; a

e) Hyrwyddo diwylliant o ddysgu, hunanfyfyrio ac ymarfer diogel

Egwyddor 2

# Goruchwylio Tiwtoriaeth a'i hansawdd

Mae Tiwtoriaeth yn fuddsoddiad pwysig yng ngyrfa broffesiynol unigolion cofrestredig.

Dylai pob unigolyn cofrestredig gael mynediad at raglen Tiwtoriaeth o ansawdd. Mae'n dangos gwerth iechyd, lles a hyder unigolion cofrestredig yn ystod cyfnodau pontio.

**Er mwyn galluogi Tiwtoriaethau effeithiol, dylai fod:**

a) prosesau er mwyn sicrhau y gall unigolion cofrestredig dderbyn Tiwtoriaeth sy'n bodloni eu hanghenion unigol;

b) prosesau ar waith i gefnogi cymysgedd briodol o ddysgu a datblygu proffesiwn-benodol, aml-broffesiwn ac un-broffesiwn o fewn sefydliadau neu gyda rhwydweithiau systemau a phroffesiynol ehangach;

c) integreiddio gyda rhaglenni sefydlu i swyddi proffesiynol lle bo hynny'n briodol;

d) cydnabyddiaeth o effaith heriau systemau a sut i'w lliniaru;

e) systemau ar waith i fonitro, gwerthuso ac adolygu rhaglenni Tiwtoriaeth;

f) fframweithiau llywodraethu proffesiynol a sefydliadol sy'n galluogi archwilio ac adrodd ar y broses; a

g) dealltwriaeth o, a chydymffurfio â, pholisïau cenedlaethol a lleol, a'r gofynion llywodraethu perthnasol sy'n ofynnol gan bedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Egwyddor 3

# Grymuso Tiwtoreion

Dylai Tiwtoriaeth gael ei theilwra ar gyfer y Tiwtorai unigol, eu swydd a'u hamgylchedd gwaith.

Ni ddylai Tiwtoriaeth ailbrofi cymhwysedd clinigol ond yn hytrach, dylai rymuso'r Tiwtorai i fyfyrio ar yr hyn maent yn ei gynnig i'w swydd a chanfod pa gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn datblygu eu hyder proffesiynol.

**Dylai Tiwtoriaeth effeithiol ddarparu'r canlynol i unigolion cofrestredig:**

a) Mynediad at raglen Tiwtoriaeth sy'n meithrin pwysigrwydd datblygu proffesiynol parhaus;

b) adnoddau a chanllawiau priodol ar gyfer datblygu hyder a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus;

c) rhaglen wedi'i theilwra o gefnogaeth a dysgu sy'n adlewyrchu anghenion unigol;

d) Tiwtor penodedig ar gyfer cyfnod cyfan eu Tiwtoriaeth; a

e) ymreolaeth sy'n caniatáu iddynt ddylanwadu ar hyd a chynnwys eu Tiwtoriaeth mewn partneriaeth â'u Tiwtor, pobl eraill yn eu sefydliad a rhwydweithiau proffesiynol ehangach.

Egwyddor 4

# Rôl tiwtoriaid

Mae rôl y Tiwtor yn rhan hollbwysig o Diwtoriaeth effeithiol. Dylai Tiwtoriaid gael hyfforddiant, amser a chefnogaeth priodol i allu deall a chyflawni eu rôl.

Nid oes rhaid i Diwtoriaid fod o'r un proffesiwn â'r Tiwtoreion, ond dylid sicrhau mai nhw yw'r unigolion mwyaf priodol i ddarparu cefnogaeth.

**Mewn Tiwtoriaethau effeithiol, dylai'r Tiwtoriaid:**

a) weithredu fel model rôl proffesiynol a bod yn gefnogol, yn adeiladol ac yn dosturiol eu ffordd;

b) helpu i hwyluso agweddau aml-broffesiwn ar y Diwtoriaeth lle bo hynny'n briodol;

c) cynorthwyo Tiwtoreion i fyfyrio ar eu datblygiad a'u cyfeirio at gefnogaeth a chyfleoedd datblygu perthnasol;

d) cynorthwyo Tiwtoreion i ymgysylltu â'u proffesiwn yn ehangach, a helpu i ddatblygu rhwydweithiau yn lleol neu drwy rwydweithiau proffesiynol allanol;

e) rhannu ymarfer effeithiol a dysgu gan ei gilydd;

f) cael eu hannog i weld manteision personol a phroffesiynol ymgymryd a rôl Tiwtor; a

g) chael mynediad at adborth ynglŷn ag ansawdd ac effeithiau pob agwedd ar eu gwaith fel Tiwtoriaid.

Egwyddor 5

# Darparu rhaglenni Tiwtoriaeth

Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y llwybrau tuag at gofrestru, amrediad a dwyster profiadau ymarfer blaenorol, a'r amrywiaeth o wasanaethau a lleoliadau y mae unigolion cofrestredig yn gweithio ynddynt.

Mae'r Egwyddorion hyn yn berthnasol i bob unigolyn cofrestredig sy'n gweithio mewn unrhyw leoliad iechyd neu ofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r GIG, y sector gofal cymdeithasol, a'r sectorau annibynnol ac elusennol.

**Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth:**

a) gael eu teilwra i roi ystyriaeth i'r amgylchedd y mae'r Tiwtorai penodol yn gweithio ynddo;

b) bod yn hyblyg er mwyn cefnogi cyfnodau pontio o wahanol fathau mewn modd amserol;

c) bod â hyblygrwydd i allu darparu themâu cyffredin Tiwtoriaeth mewn modd aml-broffesiwn yn ogystal â sicrhau y caiff elfennau penodol i broffesiwn eu darparu lle bo angen;

d) bod â chynllun strwythuredig sy'n disgrifio sut mae'r rhaglen yn darparu llwyddiant i'r Tiwtoreion;

e) amrywio o ran hyd a chynnwys yn ôl anghenion y Tiwtorai unigol a'r sefydliad. Gall gwledydd, rhanbarthau neu sefydliadau unigol osod lleiafswm neu fwyafswm ar gyfer hyd Tiwtoriaeth; a

f) bod yn ymwybodol o, ac yn gydnaws â, rhaglenni datblygu eraill ar gyfer proffesiynau penodol a'r gweithlu.

# Gwybodaeth Ategol

Mae'r manylion isod yn ymhelaethu ar elfennau darparu'r Egwyddorion Tiwtoriaeth, ac fe'u darperir er mwyn cefnogi Tiwtoreion, Tiwtoriaid, a'r rhai sy'n cynnal ac yn gwerthuso rhaglenni Tiwtoriaeth.



Egwyddor 1

## Diwylliant sefydliadol a Thiwtoriaeth

**Dylai Tiwtoriaeth effeithiol:**

a) fod wedi'i hymgorffori yn systemau gweithlu a sefydliadol y sefydliad er mwyn galluogi mynediad ac ymgysylltiad gan Diwtoreion;

b) cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb ac ystyried polisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cenedlaethol a lleol;

c) darparu cyfleoedd i Diwtoreion ddatblygu hyder a chefnogi eu gyrfa yn y dyfodol;

d) rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles Tiwtoreion a Thiwtoriaid; a

e) hyrwyddo diwylliant o ddysgu, hunanfyfyrio ac ymarfer diogel.

### Beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol i unigolion sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC

- Dylai Tiwtoriaeth fod yn rhan hanfodol o isadeiledd dysgu a datblygu sefydliad. I unigolion cofrestredig sy'n gweithio mewn sefydliadau mawr, gallai Tiwtoriaeth fod yn cael ei darparu gan dîm neu arweinydd Tiwtoriaeth. I unigolion cofrestredig sy'n gweithio i sefydliadau llai neu yn annibynnol, gallai hyn olygu derbyn cefnogaeth allanol.
- Dylai Tiwtoriaeth gael ei chynnig i bawb sy'n gofyn am hynny neu y mae ei hangen arnynt. Gallai angen unigolyn cofrestredig am Diwtoriaeth gael ei nodi ganddynt eu hunain neu gan eu cyflogwr
- Dylai Tiwtoriaethau ganolbwyntio ar alluogi Tiwtoreion i ddatblygu i mewn i rôl neu sefyllfa newydd, i ddatblygu hyder proffesiynol ac i fodloni Safonau'r HCPC, gan gynnwys gofynion DPP.
- Dylai Tiwtoriaethau gwmpasu cefnogaeth iechyd a lles, gan sicrhau bod y Tiwtoreion a'r Tiwtoriaid yn cael eu cefnogi ac yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw heriau o ran lles, yn unol â disgwyliadau'r HCPC y bydd unigolion cofrestredig yn cynnal eu hiechyd a'u lles.
- Dylai Tiwtoriaethau addasu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar Diwtoreion sydd â nodweddion gwarchodedig, megis rhoi amser ychwanegol neu ddarparu cyfarpar angenrheidiol ar gyfer cwblhau rhaglen.

Egwyddor 2

# Goruchwylio Tiwtoriaeth a'i hansawdd

**Er mwyn galluogi Tiwtoriaethau effeithiol, dylai fod:**

a) prosesau er mwyn sicrhau y gall unigolion cofrestredig dderbyn Tiwtoriaeth sy'n bodloni eu hanghenion unigol;

b) prosesau ar waith i gefnogi cymysgedd briodol o ddysgu a datblygu proffesiwn-benodol, aml-broffesiwn ac un-broffesiwn o fewn sefydliadau neu gyda rhwydweithiau systemau a phroffesiynol ehangach;

c) integreiddio gyda rhaglenni sefydlu i swyddi proffesiynol lle bo hynny'n briodol;

d) cydnabyddiaeth o effaith heriau systemau a sut i'w lliniaru;

e) systemau ar waith i fonitro, gwerthuso ac adolygu rhaglenni Tiwtoriaeth;

f) fframweithiau llywodraethu proffesiynol a sefydliadol sy'n galluogi archwilio ac adrodd ar y broses; a

g) dealltwriaeth o, a chydymffurfio â, pholisïau cenedlaethol a lleol, a'r gofynion llywodraethu perthnasol sy'n ofynnol gan bedair gwlad y Deyrnas Unedig.

## Beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol i unigolion sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC

- Dylai Tiwtoriaethau ddarparu cefnogaeth sydd wedi'i theilwra yn ôl anghenion datblygu'r unigolion cofrestredig ac sy'n cysylltu â'u hymarfer proffesiynol, gan gynnwys cwmpas eu hymarfer. Gallai hynny gynnwys rhoi Tiwtoreion mewn cysylltiad â ffynonellau gwybodaeth a chyngor arbenigol lle bo'n briodol.
- Dylai Tiwtoriaethau gysylltu â rhaglenni cynefino a sefydlu ar gyfer unigolion cofrestredig sydd newydd gael eu recriwtio, ond gan sicrhau bod gwahaniaeth amlwg rhyngddynt.
- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth fod yn ddigon gwydn i ymdopi â heriau systemau, ac ni ddylid cyfyngu neu ddileu mynediad unigolion cofrestredig at Diwtoriaethau heb reswm da nac am gyfnodau hir o amser.
- Dylid ceisio ac ystyried profiadau a safbwyntiau'r unigolion cofrestredig wrth werthuso rhaglenni a chynigion Tiwtoriaeth.
- Dylai'r systemau a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso rhaglenni Tiwtoriaeth gofnodi data digonol i allu deall profiadau Tiwtoreion yn fanwl a dylid eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

Egwyddor 3

# Grymuso Tiwtoreion

**Dylai Tiwtoriaeth effeithiol ddarparu'r canlynol i unigolion cofrestredig:**

a) Mynediad at raglen Tiwtoriaeth sy'n meithrin pwysigrwydd datblygu proffesiynol parhaus;

b) adnoddau a chanllawiau priodol ar gyfer datblygu hyder a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus;

c) rhaglen wedi'i theilwra o gefnogaeth a dysgu sy'n adlewyrchu anghenion unigol;

d) Tiwtor penodedig ar gyfer cyfnod cyfan eu Tiwtoriaeth; a

e) ymreolaeth sy'n caniatáu iddynt ddylanwadu ar hyd a chynnwys eu Tiwtoriaeth mewn partneriaeth â'u Tiwtor, pobl eraill yn eu sefydliad a rhwydweithiau proffesiynol ehangach.

**Beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol i unigolion sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC**

- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth fod yn sail i weithgareddau DPP yr unigolion cofrestredig a'u cynorthwyo i fodloni eu rhwymedigaethau rheoleiddiol.
- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth gael eu cynllunio mewn modd sy'n caniatáu hyblygrwydd yn yr hyn a gynigir i Diwtoreion, gan gynnwys sut a phryd byddant yn derbyn cefnogaeth.
- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth gysylltu â chynlluniau datblygu sy'n cynorthwyo unigolion cofrestredig i barhau â'u dysgu proffesiynol y tu hwnt i gyfnod y Diwtoriaeth.
- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth annog a chynorthwyo Tiwtoreion i ddod yn Diwtoriaid wrth iddynt gamu ymlaen y tu hwnt i'w hanghenion eu hunain, i greu llif pellach o Diwtoriaid newydd er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ddigonol i Diwtoreion yn y dyfodol.

Egwyddor 4

# Rôl tiwtoriaid

**Mewn Tiwtoriaethau effeithiol, dylai'r Tiwtoriaid:**

a) weithredu fel model rôl proffesiynol a bod yn gefnogol, yn adeiladol ac yn dosturiol eu ffordd;

b) helpu i hwyluso agweddau aml-broffesiwn ar y Diwtoriaeth lle bo hynny'n briodol;

c) cynorthwyo Tiwtoreion i fyfyrio ar eu datblygiad a'u cyfeirio at gefnogaeth a chyfleoedd datblygu perthnasol;

d) cynorthwyo Tiwtoreion i ymgysylltu â'u proffesiwn yn ehangach, a helpu i ddatblygu rhwydweithiau yn lleol neu drwy rwydweithiau proffesiynol allanol;

e) rhannu ymarfer effeithiol a dysgu gan ei gilydd;

f) cael eu hannog i weld manteision personol a phroffesiynol ymgymryd a rôl Tiwtor; a

g) chael mynediad at adborth ynglŷn ag ansawdd ac effeithiau pob agwedd ar eu gwaith fel Tiwtoriaid.

**Beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol i unigolion sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC**

- Dylid cynnig cyfleoedd i unigolion cofrestredig fod yn Diwtoriaid a rhoi cefnogaeth iddynt gael ymgymryd â'r rôl, gan gynnwys derbyn hyfforddiant priodol, amser wedi'i neilltuo a chefnogaeth ar gyfer cyflawni'r rôl.
- Dylai unigolion cofrestredig ystyried bod yn Diwtoriaid fel rhan o'u portffolio DPP, gan ychwanegu sgiliau a phrofiadau newydd sy'n gallu fod o fudd i'w hymarfer.
- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth ddarparu trefniadau i unigolion cofrestredig sy'n ymgymryd â rôl Tiwtor gael rhannu eu profiadau a'u dysgu gyda'i gilydd, a chyda'u cyrff proffesiynol.

Egwyddor 5

# Darparu rhaglenni Tiwtoriaeth

**Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth:**

a) gael eu teilwra i roi ystyriaeth i'r amgylchedd y mae'r Tiwtorai penodol yn gweithio ynddo;

b) bod yn hyblyg er mwyn cefnogi cyfnodau pontio o wahanol fathau mewn modd amserol;

c) bod â hyblygrwydd i allu darparu themâu cyffredin Tiwtoriaeth mewn modd aml-broffesiwn yn ogystal â sicrhau y caiff elfennau penodol i broffesiwn eu darparu lle bo angen;

d) bod â chynllun strwythuredig sy'n disgrifio sut mae'r rhaglen yn darparu llwyddiant i'r Tiwtoreion;

e) amrywio o ran hyd a chynnwys yn ôl anghenion y Tiwtorai unigol a'r sefydliad. Gall gwledydd, rhanbarthau neu sefydliadau unigol osod lleiafswm neu fwyafswm ar gyfer hyd Tiwtoriaeth; a

f) bod ag ymwybyddiaeth o, a bod yn gydnaws â, rhaglenni datblygu eraill ar gyfer proffesiynau penodol a'r gweithlu.

## Beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol i unigolion sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC

- Dylai unigolion cofrestredig gael cynnig Tiwtoriaeth sy'n adlewyrchu eu harferion gwaith ac yn cefnogi eu datblygiad parhaus, ar y pryd yn ogystal ag yn yr hirdymor.
- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth helpu unigolion cofrestredig i gysylltu eu Tiwtoriaeth â'u hanghenion proffesiynol a'u rhwymedigaethau rheoleiddiol.
- Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth gysylltu â rhaglenni a chyfleoedd datblygu eraill a gynigir i unigolion cofrestredig, megis cyrsiau datblygu proffesiynol neu hyfforddiant rheolwyr. Lle bo hynny'n ymarferol, gellid eu defnyddio hefyd i greu rhwydweithiau cymheiriaid er mwyn cefnogi unigolion cofrestredig yn eu hymarfer dyddiol.

# Gwahaniaethau rhwng Tiwtoriaethau a chefnogaeth mewn ffurfiau eraill

Ni ddylid drysu rhwng Tiwtoriaethau neu raglenni sy'n darparu Tiwtoriaethau a pheirianweithiau hyfforddi neu ddysgu a datblygu eraill.

Mae'r tabl hwn yn rhoi gwybodaeth am ffurfiau eraill ar gefnogaeth a allai fod yn sail i, neu gysylltu â Thiwtoriaeth ond na ddylid ystyried eu bod yn cyfateb i Diwtoriaeth.

## Coetsio

*'Nod coetsio yw sicrhau'r perfformiad a'r gwelliannau gorau posib yn y gwaith. Mae'n canolbwyntio ar sgiliau a nodau penodol, er y gall hefyd gael effaith ar briodweddau personol unigolyn megis rhyngweithio cymdeithasol neu hyder. Mae'r broses fel arfer yn parhau am gyfnod penodedig o amser neu'n ffurfio'r sail ar gyfer arddull rheoli parhaus.'*

Ffynhonnell: Sefydliad Siartredig Datblygu Proffesiynol (CIPD)[2]

Gallai Tiwtor fabwysiadu dull coetsio wrth ddarparu cefnogaeth i unigolyn sy'n Diwtorai.

## Rhaglen Sefydlu / Cynefino

*'Cyfle i sefydliad groesawu unigolyn y maent newydd ei recriwtio, eu helpu i setlo i mewn a sicrhau bod y wybodaeth a'r gefnogaeth ganddynt i'w galluogi i gyflawni eu swydd ydy rhaglen sefydlu.'*

Ffynhonnell: CIPD[3]

Mae rhaglenni sefydlu neu gynefino yn allweddol o ran galluogi gweithiwr cyflogedig newydd i ymsefydlu yn eu gweithle a'u gwasanaeth, ac mae modd eu hymgorffori mewn cynigion Tiwtoriaeth i unigolion cofrestredig sydd newydd gael eu recriwtio.

Gellir gwneud hynny drwy sicrhau y cânt eu cynnwys yn rhaglen Diwtoriaeth y Tiwtorai neu drwy sicrhau bod Tiwtoreion sydd newydd gael eu cyflogi yn cael gwybod am unrhyw drefniadau sydd ar gael iddynt, drwy eu Tiwtor ble bo hynny'n addas.

Gellir eu defnyddio fel peirianwaith ar gyfer sicrhau bod unigolion cofrestredig yn cael eu hymrestru ar raglenni Tiwtoriaeth, er enghraifft drwy hysbysu timau addysg am aelodau newydd o staff, ac i dynnu sylw at Diwtoraeth a'r manteision y gall eu cynnig i'r Tiwtorai, y Tiwtor a'r sefydliad.

# Cyfnod Prawf

Cyfnod penodol o amser ar ddechrau cyflogaeth newydd ydy cyfnod prawf, wedi'i gynllunio er mwyn galluogi cyflogwr i benderfynu a yw rhywun yn gweddu'n dda i'r swydd. Nid yw cyfnodau prawf yn orfodol, ond mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn y Deyrnas Unedig yn eu defnyddio. Gallai cyfnod prawf gael ei gynnwys mewn cytundeb cyflogaeth a chael ei oruchwylio gan reolwr y gweithiwr cyflogedig.

Gwahaniaeth allweddol rhwng cyfnodau prawf a Thiwtoriaeth ydy bod cyfnod prawf yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chytundeb cyflogaeth unigolyn cofrestredig.

Dylai rhaglenni Tiwtoriaeth gael eu cynllunio i gefnogi Tiwtoreion wrth iddynt setlo yn eu rolau newydd, boed hynny fel unigolion cofrestredig sydd newydd gymhwyso neu rai profiadol sy'n newid rolau neu gyflogwyr.

Ble bynnag y bo modd, dylai Tiwtoriaid gael eu tynnu o'r tu hwnt i gadwyn reoli'r unigolyn cofrestredig, er mwyn sicrhau nad oes drysu rhwng y ddau beth a bod y berthynas rhwng y Tiwtor a'r Tiwtorai yn cael ei gweld fel un gefnogol a datblygol.

## Mentora

*'Mae mentora yn y gweithle yn tueddu i ddisgrifio perthynas ble bydd cydweithiwr mwy profiadol yn rhannu eu gwybodaeth helaethach er mwyn cefnogi datblygiad aelod amhrofiadol o staff. Mae'n gofyn am sgiliau cwestiynu, gwrando, sicrhau eglurder ac ailfframio sydd hefyd yn gysylltiedig â choetsio.'*

Ffynhonnell: CIPD[2]

Mae Tiwtoriaeth yn wahanol i fentora, gan ei bod yn anelu at ddarparu arweiniad i ennill profiad a chymhwyso dysgu mewn lleoliad clinigol yn ystod cyfnod y Diwtoriaeth. Gallai Tiwtor ddefnyddio sgiliau neu ddulliau mentora wrth ddarparu cefnogaeth i Diwtorai ar raglen Diwtoriaeth.

# Goruchwylio

Er nad oes un diffiniad penodol y cytunir arno ar gyfer goruchwylio, yn ei hanfod, mae goruchwylio yn broses o ddysgu a datblygu proffesiynol sy'n galluogi unigolion i fyfyrio am a datblygu eu gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau, trwy gefnogaeth reolaidd y cytunwyd arni gan weithiwr proffesiynol arall.

Gall fod nifer o ffurfiau a swyddogaethau gwahanol i oruchwylio, a defnyddir amrywiaeth eang o dermau, gan ddibynnu ar y gweithle.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Goruchwylio ymarfer / clinigol, sydd â'r nod o gefnogi dysgu a datblygu cymhwysedd mewn perthynas â thasg glinigol benodol.
- Goruchwylio proffesiynol, sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar nodi anghenion dysgu a datblygu proffesiynol a DPP.
- Goruchwylio gweithredol/rheoli llinell

Ceir rhagor o wybodaeth am oruchwylio ar wefan yr HCPC, yn https://www.hcpc-uk.org/standards/meeting-our-standards/supervision-leadership-and-culture/supervision/.

Mae Tiwtoriaeth yn wahanol i oruchwylio ymarfer/clinigol neu weithredol/rheoli llinell gan fod y rheiny'n tueddu i ganolbwyntio ar faes neu fater allweddol ac yn cael eu darparu neu eu defnyddio'n aml gan unigolion cofrestredig sydd angen gwella eu sgiliau neu sy'n ceisio gwneud cynnydd yn eu gyrfa, yn hytrach nag yn ystod cyfnodau pontio.

Mae Tiwtoriaeth yn debyg i oruchwylio proffesiynol ac mae modd ei hymgorffori mewn trefniant goruchwylio proffesiynol lle nad yw trefniadau eraill yn ymarferol. Fodd bynnag, bydd angen cael cytundeb eglur rhwng y Tiwtorai a'r Tiwtor er mwyn sicrhau bod gwahaniad eglur rhyngddynt. e.e. wrth gofnodi cyfarfodydd neu drafod pryderon.

2. https://www.cipd.org/uk/knowledge/factsheets/coaching-mentoring-factsheet/ (Mehefin 2021)
3. https://www.cipd.org/uk/knowledge/factsheets/induction-factsheet/ (Rhagfyr 2022)

# Tiwtoriaeth i weithwyr cofrestredig sy'n gweithio y tu allan i'r GIG, gan gynnwys ymarferwyr unigol



Rydym yn deall bod nifer o unigolion sy'n gofrestredig gyda'r HCPC yn cael eu cyflogi neu'n gweithio oddi allan i strwythurau'r GIG, ble mae Tiwtoriaeth yn llai cyfarwydd ac yn gallu bod yn anoddach ei derbyn. Er nad yw Tiwtoriaeth yn ofynnol ar gyfer cofrestru gyda'r HCPC, ceir tystiolaeth helaeth bod ei darparu, yn unol â'n Hegwyddorion, o fudd i ymarfer proffesiynol a lles unigolion cofrestredig, ac o gymorth i sefydliadau o ran recriwtio a chadw aelodau staff.

Darperir y wybodaeth isod er mwyn cynorthwyo unigolion cofrestredig i ystyried pa opsiynau sydd ar gael ar gyfer derbyn neu gefnogi Tiwtoriaeth.

## Gweithio mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal

I'r rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau masnachol neu wirfoddol/elusennol, gellid defnyddio'r Egwyddorion i wneud achos busnes dros ddarparu Tiwtoriaeth. Mewn sefydliadau sydd â nifer fawr o unigolion cofrestredig, bydd y canllawiau a'r dogfennau cyffredinol a ddarperir gan sefydliadau ar lefel gwlad (gweler yr adrannau sy'n dilyn) o gymorth ar gyfer sefydlu a chynnal rhaglenni Tiwtoriaeth.

Mewn sefydliadau sy'n cyflogi unigolion sy'n gofrestredig gyda'r HCPC o broffesiynau penodol, bydd y wybodaeth a'r canllawiau a ddarperir gan y corff proffesiynol perthnasol yn addas (gweler yr adran nesaf).

## Gweithio mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai iechyd a gofal

I'r rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau nad ydynt yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal, gellid defnyddio'r Egwyddorion mewn modd tebyg i wneud achos busnes dros ddarparu Tiwtoriaeth.

Yn yr amgylchiadau hynny, mae'n debygol y byddai angen i raglenni Tiwtoriaeth gael gael eu rheoli gan swyddogaethau personél neu ddatblygu dysgu, unwaith eto gan ddefnyddio canllawiau cenedlaethol perthnasol neu ganllawiau penodol i broffesiynau a gynhyrchwyd gan gyrff proffesiynol lle maent ar gael (gweler yr adrannau sy'n dilyn).

## Gweithio'n annibynnol

I'r rhai sy'n gweithio'n annibynnol, boed hynny mewn darpariaeth iechyd a gofal neu mewn sectorau eraill, mae'n annhebygol y bydd rhaglenni Tiwtoriaeth sefydliadol hygyrch yn eu lle. I gydnabod y sefyllfa hon, bydd yr HCPC yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn dod i ddeall y ffordd orau o ddarparu cefnogaeth yn y dyfodol.

Gallai rhai o'r rhaglenni a ddarperir gan gyrff proffesiynol fod o gymorth i rai unigolion cofrestredig (gweler yr adran ar wybodaeth benodol i broffesiynau), a ble bo hynny'n briodol, gellid eu defnyddio i ddatblygu 'cymunedau Tiwtoriaeth' er mwyn dod ag unigolion cofrestredig sy'n barod i ddarparu cefnogaeth Tiwtoriaeth ynghyd gyda rhai sydd angen y gefnogaeth honno.

# Tiwtoriaeth ar gyfer unigolion cofrestredig a gaiff eu recriwtio'n rhyngwladol



Ar gyfer unigolion cofrestredig yr HCPC sydd wedi dod i weithio yn y Deyrnas Unedig drwy ein llwybr cofrestru rhyngwladol, gall Tiwtoriaeth ddarparu ffordd o gefnogi ymddiwylliannu i'w hamgylchedd gwaith newydd ac i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Mae rhaglenni Tiwtoriaeth ar gyfer unigolion cofrestredig a recriwtiwyd yn rhyngwladol (boed rheiny'n rhai a gynigir yn benodol iddyn nhw, neu wrth iddynt gyfranogi mewn rhaglen gyffredinol) yn gallu eu cynorthwyo i ddeall gwahaniaethau diwylliannol pwysig, er enghraifft ynglŷn â'r ffordd y mae systemau iechyd a gofal y Deyrnas Unedig yn gweithredu, a gwahaniaethau o ran cyfathrebu a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau yn y Deyrnas Unedig o'u cymharu â rhai yng ngwledydd eu cartref. Gall eu helpu hefyd i fodloni eu rhwymedigaethau rheoleiddiol, a allai fod yn wahanol i'r rhai sydd ar waith ble buont yn hyfforddi neu'n cymhwyso.

**Mae'r HCPC yn cynnig gweminarau a gweithdai 'Ymuno â gweithlu'r Deyrnas Unedig' i unigolion cofrestredig rhyngwladol, sydd â'r bwriad o gefnogi eu cyfnod o bontio i ymarfer yn y Deyrnas Unedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Wasanaeth Cyswllt Proffesiynol yr HCPC, yn: [professional.liaison@hcpc-uk.org](mailto:professional.liaison@hcpc-uk.org)**

# Trefniadau tiwtoriaeth fesul cenedl yn y Deyrnas Unedig

Mae'r manylion isod ar gyfer rhaglenni a gynhelir neu a ddefnyddir gan y GIG neu awdurdodau cyhoeddus.

## Lloegr

Mae Tîm Hyfforddiant ac Addysg Gweithlu NHS England wedi creu fframwaith gweithredu y gellir ei ddefnyddio i gyflwyno rhaglenni Tiwtoriaeth sy'n canolbwyntio ar Broffesiynau Perthynol i Iechyd mewn gweithleoedd lle nad oes rhai i'w cael neu i adolygu ac adnewyddu rhaglenni sy'n bodoli.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

https://www.hee.nhs.uk/our-work/allied-health-professions/education-employment/national-allied-health-professionals-preceptorship-foundation-support-programme/allied-health

Maent hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth fwy cyffredinol am Diwtoriaeth:

https://www.hee.nhs.uk/our-work/allied-health-professions/education-employment/national-ahp-Preceptorship-foundation-support

https://learninghub.nhs.uk/Catalogue/AHP-Preceptorship-Foundation

## Yr Alban

Mae NHS Education for Scotland yn cynnal rhaglen Flying Start NHS®, sydd ar gael i nyrsys, bydwragedd neu Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sydd newydd gymhwyso yn unig, ac y bwriedir iddi gael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ymarfer.

Ceir gwybodaeth am Flying Start yn:

https://learn.nes.nhs.scot/735/flying-start-nhs

Mae gan NHS Education for Scotland fframwaith ar gyfer cydweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth sydd yn cael ei adolygu a'i addasu ar hyn o bryd ar gyfer ei ddefnyddio gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd.

https://learn.nes.nhs.scot/42348/Preceptorship

# Trefniadau tiwtoriaeth fesul cenedl yn y Deyrnas Unedig

## Cymru

Er nad oes unrhyw raglenni Tiwtoriaeth aml-broffesiwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer unigolion cofrestredig yr HCPC, mae yna nifer o gynlluniau lleol neu rai sy'n benodol i broffesiynau, megis cynllun Tiwtoriaeth Awdioleg Cymru Gyfan.

Mae gan Lywodraeth Cymru fframweithiau cenedlaethol yn eu lle ar gyfer gwyddonwyr gofal iechyd (Fframwaith Gwyddor Gofal Iechyd yn GIG Cymru: Edrych tuag at y Dyfodol, 2018) ac ar gyfer gweithlu'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd (Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru: Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd, 2019). Caiff rhain eu cefnogi trwy raglenni cenedlaethol a reolir gan 'Addysg a Gwella Iechyd Cymru' (AaGIC/HEIW). Mae fframwaith ar gyfer Tiwtoriaeth Gwyddor Gofal Iechyd wrthi'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith hwnnw.

Dylid nodi hefyd bod Radiograffyddion ac Ymarferwyr Adrannau Llawfeddygol yn cael eu cynnwys o fewn datblygiadau strategol Gwyddor Gofal Iechyd yn GIG Cymru.

Rhagor o wybodaeth yn:

Tudalennau Gwe Proffesiynau Perthynol i Iechyd: Proffesiynau Perthynol i Iechyd - AaGIC (gig.cymru)

https://heiw.nhs.wales/our-work/allied-health-professions-ahps/

Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru:

https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/allied-health-professions-framwework-for-wales.pdf

# Gwybodaeth benodol i broffesiynau

**Mae'r Cyrff Proffesiynol canlynol wedi cynhyrchu canllawiau neu wybodaeth proffesiwn benodol ar Diwtoriaeth neu waith cysylltiedig.**

## Yr Academi Awdioleg Brydeinig – Fframwaith (Mynediad i Aelodau yn unig)

Yn darparu cefnogaeth ar gyfer staff sydd newydd gymhwyso neu sy'n dychwelyd i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth gyda chefnogaeth ac arweiniad Tiwtor). Nid yw'n gyfyngedig i fandiau neu swyddi penodol a gellir ei roi ar waith ar gyfer clinigwyr Awdioleg yn y GIG a rhai preifat.

Fframwaith Tiwtoriaeth BAA wedi'i lansio - Yr Academi Awdioleg Brydeinig lBritish Academy of Audiology: https://www.baaudiology.org/baa-preceptorship-framework-launched/

## Cymdeithas Brydeinig Prosthetyddion ac Orthotyddion – Canllawiau

Canllaw i'r defnydd o Diwtoriaethau o fewn Prostheteg ac Orthoteg, gan gynnwys nodau a manteision rhaglenni Tiwtoriaeth

https://www.bapo.com/wp-content/uploads/2020/01/Prosthetists-and-Orthotists-Preceptorship-Guide.pdf

## Cymdeithas Ddeieteg Prydain (BDA) – Fframwaith Tiwtoriaeth ac Astudiaethau achos

Tudalennau gwe am Diwtoriaeth i ddeietegwyr gan gynnwys fframwaith Tiwtoriaeth y BDA/adnoddau ategol ac astudiaethau achos

https://www.bda.uk.com/news-campaigns/campaigns/dietetic-workforce-development-programme/early-dietetic-careers-Preceptorship.html

## Cymdeithas Orthopteg Prydain ac Iwerddon – Gwybodaeth ac Astudiaethau Achos

Tudalen we am Diwtoriaeth i orthoptyddion, gan gynnwys astudiaethau achos gan orthoptyddion ar ddechrau eu gyrfa a dolenni at ragor o wybodaeth.

https://www.orthoptics.org.uk/Preceptorship

## Cymdeithas Seicolegol Prydain

Dogfennau sy'n darparu set o ganllawiau a rennir ar gyfer pob seicolegydd cymhwysol

https://www.bps.org.uk/guideline/bps-practice-guidelines-2017

https://www.bps.org.uk/guidelines-and-documents

Ar gael hefyd mewn print:

‘BPS Guidelines on Job Planning for Practitioner Psychologists in the NHS and Social Care’

Mae’r canllawiau hyn ar gyfer ymarferwyr seicoleg sy’n gweithio mewn Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd er mwyn llywio’r broses o gynllunio gwaith

## Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion – Astudiaethau Achos

Tudalennau gwe am Diwtoriaeth i ffisiotherapyddion, yn cynnwys astudiaethau achos gydag adborth gan Diwtoreion sy’n ffisiotherapyddion newydd gymhwyso.

https://www.csp.org.uk/professional-clinical/cpd-education/Preceptorship

## Coleg Brenhinol Podiatreg – Fframwaith Tiwtoriaeth Datblygu Gyrfa Glinigol

Canllaw a gynhyrchwyd gan y Coleg Podiatreg, wedi’i lunio er mwyn helpu unigolion cofrestredig podiatreg a chiropodeg i ddatblygu hyder a sgiliau proffesiynol yn ystod cyfnodau pontio yn eich gyrfa glinigol.

https://live.wounds-uk.com/wp-content/uploads/2020/11/COP-Preceptorship-guidance.pdf

## Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol - Canllawiau

Dogfennau a ddatblygwyd i gefnogi therapyddion galwedigaethol sydd newydd gymhwyso wrth iddynt symud i mewn i’w swyddi cyntaf.

https://www.rcot.co.uk/supporting-early-career-occupational-therapists

Canolfan adnoddau ar gyfer therapyddion galwedigaethol sydd eisiau dychwelyd at ymarfer proffesiynol a’r rhai sy’n eu cefnogi.

https://www.rcot.co.uk/about-occupational-therapy/returning-practice

## Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT) – Canllawiau

Tudalennau gwe gyda dolenni at adnoddau’r RCSLT i Ymarferwyr Newydd Gymhwyso

https://www.rcslt.org/learning/Preceptorships/

## Cymdeithas y Radiograffyddion / Coleg y Radiograffyddion (SoR) - Canllawiau

Safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant a Thiwtoriaeth i ymarferwyr sy’n adrodd ym maes pelydr-X y frest i oedolion

New Guidance: Standards for the education, training and Preceptorship of reporting practitioners in I SoR

https://www.sor.org/news/scor/new-guidance-standards-for-cxr-education-training